

## Sylwi ar sgam

Mae'n bwysig cadw llygad allan am sgamiau. Gallant ac maent yn effeithio ar unrhyw un.

Gallai rhywbeth fod yn sgam os:

- Mae'n ymddangos yn rhy dda i fod yn wir - fel e-bost yn dweud eich bod wedi ennill cystadleuaeth nad ydych yn cofio cymryd rhan ynddi
- Mae rhywun nad ydych yn ei adnabod yn cysylltu â chi'n annisgwyl
- Rydych chi'n cael eich annog i ymateb neu dalu'n gyflym
- Gofynnwyd i chi dalu am rywbeth ar frys neu mewn ffordd anarferol – er enghraifft trwy drosglwyddiad banc neu dalebau rhodd
- Gofynnwyd i chi am wybodaeth bersonol

Os ydych chi'n meddwl bod rhywun efallai'n ceisio'ch twyllo, mynnwch gyngor. Gallwch gysylltu â gwasanaeth defnyddwyr Cyngor ar Bopeth ar **0808 223 1133** am gymorth gyda beth i'w wneud nesaf, a rhoi gwybod am sgamiau i Action Fraud, y ganolfan genedlaethol ar gyfer adrodd sgamiau ar **0300 123 2040**.

Gallwch wirio sgamiau diweddar ar wefan Action Fraud, a chofrestru ar gyfer rhybuddion e-bost i gael gwybod am sgamiau yn eich ardal yn **actionfraud.police.uk/news**

## Sut i amddiffyn eich hun rhag sgamiau

Os nad ydych yn siŵr am rywbeth, mynnwch gyngor gan ffynhonnell ddibynadwy.

- Peidiwch â rhuthro i wneud unrhyw benderfyniadau cyflym. Mae'n iawn cymryd eich amser
- Peidiwch byth â rhoi arian neu fanylion personol, fel cyfrineiriau neu fanylion banc, i unrhyw un nad ydych yn ei adnabod neu sydd ond wedi cyfarfod ar-lein
- Talu gyda cherdyn debyd neu gredyd. Mae hyn yn rhoi diogelwch ychwanegol i chi os bydd pethau'n mynd o chwith
- Byddwch yn ddrwgdybus. Gall sgamwyr fod yn glyfar iawn. Gallant ymddangos fel busnes dibynadwy neu yn swyddogol o'r llywodraeth, bod â gwefan broffesiynol a dweud yr holl bethau cywir
- Cadw'ch cyfrifon ar-lein yn ddiogel. Defnyddiwch gyfrinair cryf ar gyfer cyfrifon e-bost nad ydych yn eu defnyddio yn unman arall

Mae rhagor o wybodaeth am sut i ddiogelu eich hun rhag sgamiau ar wefan Cyngor ar Bopeth.

**[citizensadvice.org.uk/scamsadvice](https://citizensadvice.org.uk/scamsadvice)**

Mae gan Friends Against Scams gyngor hefyd ar sut i amddiffyn eich hun a'ch anwyliaid rhag sgamiau.

**[friendsagainstscams.org.uk](https://friendsagainstscams.org.uk)**

## Beth i'w wneud os ydych chi'n meddwl eich bod wedi cael eich sgamio

Os ydych chi wedi cael eich sgamio, mae yna 3 cham y mae angen i chi eu cymryd:

### 1. Amddiffyn eich hun rhag risgiau pellach

Peidiwch â bod yn embaras - cysylltwch â'ch banc ar unwaith i roi gwybod iddynt beth sydd wedi digwydd. Dylech hefyd newid unrhyw fanylion mewngofnodi perthnasol, a gwirio am firws os cawsoch eich sgamio ar gyfrifiadur.

### 2. Gwiriwch os gallwch gael eich arian yn ôl

Os ydych chi wedi colli arian oherwydd sgam, yn dibynnu ar yr amgylchiadau efallai y byddwch chi'n gallu cael eich arian yn ôl trwy gysylltu'n uniongyrchol â'r dull a defnyddiwyd i dalu.

### 3. Rhowch wybod am y sgam

Mae adrodd am sgamiau yn amddiffyn eraill rhag cael eu sgamio.

- Mae adrodd am sgamiau yn amddiffyn eraill rhag cael eu sgamio.
- Ffoniwch wasanaeth defnyddwyr Cyngor ar Bopeth ar **0808 223 1133**
- Rhowch wybod i Action Fraud am y sgam. Byddant hefyd yn rhoi rhif cyfeirnod trosedd i chi, a all fod yn ddefnyddiol os oes angen i chi ddweud wrth eich banc eich bod wedi cael eich sgamio

Mae hefyd yn bwysig siarad am eich profiad gyda theulu a ffrindiau. Drwy roi gwybod iddynt beth sydd wedi digwydd, gallant fod yn barod, a gyda'n gilydd gallwn roi terfyn ar sgamiau.

Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y sgamwyr sy'n esgus bod yn fasnachwyr, neu'n gwerthu trwy farchnadoedd ar-lein.

### Dylech gadw llygad allan am sgamiau fel:

- Masnachwyr sy'n curo ar eich drws, yn gofyn am daliadau ymlaen llaw. Dylech gymryd yr amser i sicrhau bod pob masnachwr yn ddibynadwy cyn cadarnhau gwaith gyda nhw
- Galwyr diwahoddiad neu werthwyr drws yn cynnig bargeinion. Cymerwch amser i edrych ar yr opsiynau sydd ar gael i chi
- Hysbysebion ffug ar-lein. Mae'n bwysig eich bod yn cymryd yr amser i wirio bod unrhyw hawliadau'n gywir cyn prynu
- E-byst neu alwadau awtomataidd yn cymryd arnynt eu bod yn llywodraeth neu gwmni swyddogol

### Amddiffyn eich hun:

- Peidiwch â rhoi unrhyw arian na manylion banc i unrhyw un nad ydych yn ei adnabod neu rydych dim ond wedi cyfarfod ar-lein. Byddwch yn wiliadwrus o gyswllt annisgwyl
- Ymchwiliwch i unrhyw fasnachwr neu gwmnïau cyn cadarnhau unrhyw daliadau, yn enwedig os ydynt yn ymddangos yn rhy dda i fod yn wir
- Os ydych chi'n meddwl y gallai rhywun fod yn ceisio eich sgamio, mae'n bwysig gweithredu ar unwaith

Mae Cyngor ar Bopeth yn helpu i roi'r wybodaeth a'r hyder sydd eu hangen ar bobl i ddod o hyd i'r ffordd ymlaen – pwy bynnag ydyn nhw, a beth bynnag yw eu problem.

Mae ein rhwydwaith o elusennau yn cynnig cyngor cyfrinachol ar-lein, dros y ffôn, wyneb yn wyneb yn rhad ac am ddim.

[citizensadvice.org.uk/scamsadvice](https://citizensadvice.org.uk/scamsadvice)



#YmwybodoloSgam

Cyngor ar Bopeth Mai 2023  
Cyngor ar Bopeth yw enw gweithredol  
Cymdeithas Genedlaethol Cyngor ar Bopeth.  
Rhif elusen gofrestredig 279057

# Ymwybodol o Sgamiau



cyngor ar  
bopeth

ctsi Chartered Trading  
Standards Institute

NATIONAL  
TRADING  
STANDARDS  
Protecting Consumers  
Safeguarding Businesses

Department for  
Business & Trade